**School Entry Hearing Screening – Information and Consent for Parents/Guardians**

Dear Parent/Guardian,

The School Entry Hearing Screening Pathway is a national service that will offer a hearing screen to all children during their reception year.

A Children's Hearing Screener will be attending your child's school to check your child's hearing.

**IMPORTANT** - If you child has a **peritoventricular shunt**, different testing arrangements need to be made. Please contact your hearing screener (see below) who will inform the Paediatric Audiology Department.

**IMPORTANT** – If you do not want your child to have this important test you must inform your hearing screener immediately to opt-out, via telephone or email.

**Your School Nursing Team is: Pen y Maes Health Centre**

**03000 849715**

**Email: bcu.snpenymaes@wales.nhs.uk**

**Does my child have to have their hearing screened?**

It is strongly recommended your child's hearing is screened to identify a hearing impairment that could affect their speech and language development, learning and social development. Some hearing impairments can develop gradually and some can be present in only one ear. This may make it difficult for you to pick up a hearing impairment in your child without a hearing test.

**What does the test involve?**

The test will be completed by an experienced Childrens' Hearing Screener who will place headphones on your child's ears and will teach them to respond when they hear a sound.

**What happens if my child does not pass the screen?**

There are many reasons why your child may not pass their screen, including:
They may have a temporary hearing loss. This is common in young children (e.g. hearing loss due to having a cold or ear infection).
They may have been too shy, or not confident enough to complete the hearing test.
They may have additional learning needs that mean the hearing test is not appropriate. These children will be referred to Paediatric Audiology Services for further assessment.
They may have a hearing impairment that requires further testing.
If your child does not pass, the hearing screener will return within 12 weeks to repeat the screen.

**What if my child is absent on the day of the test?**

The hearing screener will return within 12 weeks to complete the screen.

**Will I be told the result?**

Yes, a leaflet will come home with your child within 12 weeks of the first visit. This will inform you if your child has passed the hearing screen or requires referral to Paediatric Audiology for further testing.

Please see the All Wales information leaflet for additional information

**Sgrinio'r Clyw i Blant Ifanc yn yr Ysgol - Gwybodaeth a Chydsyniad ar gyfer Rhieni/Gwarcheidwaid**

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Mae'r Llwybr Sgrinio'r Clyw i Blant Ifanc yn yr Ysgol yn wasanaeth cenedlaethol a fydd yn cynnig prawf sgrinio'r clyw i bob plentyn yn ystod eu blwyddyn mewn dosbarth derbyn.

Bydd Sgriniwr Clyw Plant yn dod i ysgol eich plentyn i wirio clyw eich plentyn.

**PWYSIG -** Os oes gan eich plentyn sydd â **siynt rhaglenadwy**, bydd angen trefnu dull gwahanol o brofi'r clyw. Cysylltwch â'ch sgriniwr clyw (gweler isod) a wnaiff hysbysu'r Adran Awdioleg Bediatrig.

**PWYSIG** – Os nad ydych chi'n dymuno i'ch plentyn gael y prawf pwysig hwn, bydd yn rhaid i chi hysbysu eich sgriniwr clyw yn ddi-oed i optio allan, dros y ffôn neu trwy anfon e-bost.

**Tîm eich Nyrs Ysgol yw: Clinig Pen y Maes**

**03000 849715**

**Ebost: bcu.snpenymaes@wales.nhs.uk**

**A oes yn rhaid i fy mhlentyn gael prawf sgrinio’r clyw?**

Argymhellir yn gryf fod eich plentyn yn cael ei sgrinio er mwyn canfod unrhyw nam ar y clyw, fel bod modd cynorthwyo’r plentyn gyda’i ddatblygiad o ran lleferydd ac iaith, ei broses ddysgu, a’i ddatblygiad cymdeithasol. Gall rhai namau ar y clyw ddatblygu’n raddol, a gall rhai fod mewn un glust yn unig. Gall hyn ei gwneud yn anodd ichi sylwi ar nam ar glyw eich plentyn heb brawf clyw.

**Beth sy'n digwydd yn ystod y prawf?** Bydd y prawf yn cael ei gynnal gan Sgriniwr Clyw profiadol a fydd yn gosod clustffonau ar glustiau eich plentyn ac yn ei addysgu i wrando ar gyfres o synau gwahanol.

**Beth sy’n digwydd os na fydd fy mhlentyn yn pasio prawf sgrinio’r clyw?**

Mae sawl rheswm pam efallai na fydd eich plentyn yn pasio prawf sgrinio’r clyw, gan gynnwys:
Efallai fod eich plentyn wedi cael colled clyw dros dro. Mae hyn yn gyffredin iawn ymysg plant ifanc (e.e. colli clyw oherwydd annwyd neu haint yn y glust).
Efallai fod y plentyn wedi bod yn rhy swil, neu efallai nad oedd yn ddigon hyderus i gwblhau’r prawf.
Efallai fod gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol sy’n golygu nad yw’r prawf yn briodol. Bydd y plant yma’n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau awdioleg yn uniongyrchol.
Efallai fod gan y plentyn nam ar y clyw sy’n gofyn am asesiad llawn

**Beth sy'n digwydd os bydd fy mhlentyn yn absennol ar ddiwrnod y prawf?** Bydd y sgriniwr clyw yn dychwelyd ymhen 12 wythnos i gwblhau'r prawf sgrinio.

**A fyddaf yn cael gwybod am y canlyniad?** Byddwch, bydd taflen yn cael ei hanfon atoch gyda'ch plentyn ymhen 12 wythnos wedi'r ymweliad cyntaf. Yn y daflen hon, byddwch yn cael gwybod a fydd eich plentyn wedi pasio'r prawf sgrinio neu a ddylid ei gyfeirio at y Gwasanaeth Awdioleg Pediatrig i gael rhagor o brofion.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch daflen wybodaeth Cymru gyfan sydd ar gael ar-lein.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# School Entry Hearing Screening Pathway in Wales

GIG CYMRU NHS WALES

## What is the School Entry Hearing Screening Pathway?

**The School Entry Hearing Screening Pathway is a national service that will offer a hearing screen to all children who reach the age of five during their current school year (reception year). From September 2022, this will also include home-educated children in the year they reach the age of five.**

The aim of the hearing screen is to identify children with a permanent significant unilateral (one ear) or bilateral (both ears) hearing impairment. The hearing screen may also identify children with a temporary hearing loss which may require monitoring and/or further input (such as temporary hearing aids and/or referral to an Ear, Nose & Throat doctor).

### IMPORTANT

**Children with programmable shunts must not be screened in this way as there is a risk of the screening equipment affecting the shunt. If your child has a programmable shunt, please contact your local audiology department to discuss this further.**



## How do I arrange a hearing screen in school?

**If your child attends school, they will complete the hearing screen on school premises. The Hearing Screener will arrange a date with the school.**

From September 2022, all home-educated children who reach the age of five during the current school year will also be eligible for the school entry hearing screen.

You will be contacted by your local audiology department to arrange the hearing screen. It will be held in a clinic location within your health board.

## I have concerns about my child's hearing, should I wait for the school hearing screen?

**If you have significant concerns about your child's hearing for six weeks or more, you should seek a referral to Children's Audiology Service via your GP practice.**

The school entry hearing screen takes place throughout the school year.

Due to the number of schools to visit, we cannot guarantee when in the school year your child will receive their hearing screen.

## Does my child have to have their hearing screened?

**It is strongly recommended your child is screened in order to identify any hearing impairment so they can be supported with their speech and language development, and learning and social development.**

Some hearing impairments can develop gradually, and some can be present in only one ear.

This may make it difficult for you to pick up a hearing impairment in your child without a hearing test.

Before the Hearing Screener visits your child's school, you will be sent an opt-out consent form.

If you do not wish your child to have their hearing screened, you should inform the Head Teacher in writing immediately.

## What does the hearing test involve? Is there anything I can do to help my child prepare for the school hearing screen?

**The test will be completed by an experienced Hearing Screener. It is a simple 'sweep test' where your child wears headphones to listen for a series of different sounds.**

**Your child is asked to respond when they hear the sound.**

To prepare your child, you can make sure they are comfortable wearing headphones, and practice waiting types of games, such as "ready, steady, go."



## What happens if my child misses the school hearing screen?

**The Hearing Screeners will visit a school more than once. If your child is not present on the date of the first visit they will be screened at a later visit.**

If your child isn't present on the second or third attempt and you wish them to have a hearing screen, please follow the instructions on the consent form.



## What happens if my child does not pass the screen?

There are many reasons why your child may not pass their screen, including:

- They may have had a temporary hearing loss. This is very common in young children (e.g. hearing loss due to having a cold or ear infection).
- They may have been too shy, or not confident enough to complete the hearing test.
- They may have additional learning needs that mean the hearing test is not appropriate. These children will be referred directly to audiology services.
- They may have a hearing impairment that requires full assessment.

**The Hearing Screener will return at a later date to repeat the screen.**

**If your child does not pass their second screen then they will be referred to the Children's Audiology Service for further assessment in a local hospital or clinic.**

OGL © Crown copyright 2022, Welsh Government, WG45332. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

# Llwybr Sgrinio'r Clyw i Blant Ifanc yn yr Ysgol yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES

## Beth yw Llwybr Sgrinio'r Clyw i Blant Ifanc yn yr Ysgol?

**Mae Llwybr Sgrinio'r Clyw i Blant Ifanc yn yr Ysgol yn wasanaeth cenedlaethol a fydd yn cynnig prawf sgrinio'r clyw i bob plentyn sy'n cyrraedd pump oed yn ystod ei flwyddyn ysgol bresennol (blwyddyn dderbyn). O fis Medi 2022, bydd hyn hefyd yn cynnwys plant sy'n derbyn addysg gartref yn y flwyddyn y maent yn cyrraedd pump oed.**

Nod prawf sgrinio'r clyw yw adnabod plant sydd â nam sylweddol a pharhaol ar eu clyw, sydd naill ai'n unochrog (un glust) neu'n ddwyochrog (y ddwy glust). Gall y prawf sgrinio hefyd adnabod plant sydd â cholled clyw dros dro y gall fod angen ei monitro a/neu y gall fod angen mewnbwn pellach ar ei chyfer (fel cymhorthion clyw dros dro a/neu atgyfeiriad at feddyg y Glust, y Trwyn a'r Gwddf).

**PWYSIG**

**Rhaid peidio â sgrinio plant sydd â siyntiau rhaglenadwy yn y ffordd yma gan fod risg y gallai'r offer sgrinio effeithio ar y siynt.**
**Os oes gan eich plentyn siynt rhaglenadwy, cysylltwch â'ch adran awdioleg leol i drafod hyn ymhellach.**



### Sut mae trefnu prawf sgrinio'r clyw yn yr ysgol?

**Os yw eich plentyn yn mynychu'r ysgol, bydd yn cwblhau'r prawf sgrinio ar safle'r ysgol. Bydd y Sgriniwr Clyw yn trefnu dyddiad gyda'r ysgol.**

O fis Medi 2022 ymlaen, bydd pob plentyn sy'n derbyn addysg gartref sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn ysgol bresennol hefyd yn gymwys ar gyfer prawf sgrinio'r clyw i blant ifanc yn yr ysgol.

Bydd eich adran awdioleg leol yn cysylltu â chi i drefnu prawf sgrinio'r clyw. Bydd yn cael ei gynnal mewn lleoliad clinig yn eich bwrdd iechyd.

### Mae gen i bryderon am glyw fy mhlentyn; a ddylwn i aros am brawf sgrinio'r clyw yn yr ysgol?

**Os oes gennych bryderon sylweddol am glyw eich plentyn am chwe wythnos neu ragor, dylech ofyn am atgyfeiriad at y Gwasanaeth Awdioleg Plant drwy eich meddygfa.**

Mae profion sgrinio'r clyw i blant ifanc yn yr ysgol yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn ysgol.

Oherwydd nifer yr ysgolion y mae angen ymweld â nhw, ni allwn warantu pryd yn y flwyddyn ysgol y bydd eich plentyn yn cael prawf sgrinio'r clyw.

## Oes rhaid i fy mhlentyn gael prawf sgrinio'r clyw?

**Argymhellir yn gryf fod eich plentyn yn cael ei sgrinio er mwyn canfod unrhyw nam ar y clyw, fel bod modd cynorthwyo'r plentyn gyda'i ddatblygiad o ran lleferydd ac iaith, ei broses ddysgu, a'i ddatblygiad cymdeithasol.**

Gall rhai namau ar y clyw ddatblygu'n raddol, a gall rhai fod mewn un glust yn unig.

Gall hyn ei gwneud yn anodd ichi sylwi ar nam ar glyw eich plentyn heb brawf clyw.

Cyn i'r Sgriniwr Clyw ymweld ag ysgol eich plentyn, bydd ffurflen gydsynio optio allan yn cael ei hanfon atoch.

Os nad ydych yn dymuno i'ch plentyn gael prawf sgrinio'r clyw, dylech roi gwybod i'r Pennaeth yn ysgrifenedig ar unwaith.

## Beth mae'r prawf yn ei gynnwys? Oes unrhyw beth y galla i ei wneud i helpu fy mhlentyn i baratoi ar gyfer prawf sgrinio'r clyw yn yr ysgol?

**Bydd y prawf yn cael ei gynnal gan Sgriniwr Clyw profiadol. Prawf syml fydd hwn lle bydd eich plentyn yn gwisgo clustffonau i wrando ar gyfres o synau gwahanol.**

**Gofynnir i'ch plentyn ymateb pan fydd yn clywed y sain.**

I baratoi eich plentyn, gallwch sicrhau ei fod yn gyfforddus yn gwisgo clustffonau, ac ymarfer mathau o gemau sy'n cynnwys aros, er enghraifft "Parod! Ewch!".



## Beth sy'n digwydd os yw fy mhlentyn yn absennol o brawf sgrinio'r clyw yn yr ysgol?

**Bydd y Sgriniwr Clyw yn ymweld ag ysgol fwy nag unwaith. Os nad yw eich plentyn yn bresennol ar ddyddiad yr ymweliad cyntaf, bydd yn cael ei sgrinio yn ystod ymweliad diweddarach.**

Os nad yw eich plentyn yn bresennol ar yr ail neu'r drydedd ymgais, a'ch bod yn dymuno i'ch plentyn gael prawf sgrinio'r clyw, dilynwch y cyfarwyddiadau ar y ffurflen gydsynio.



## Beth sy'n digwydd os nad yw fy mhlentyn yn pasio prawf sgrinio'r clyw?

Mae sawl rheswm pam efallai na fydd eich plentyn yn pasio prawf sgrinio'r clyw, gan gynnwys:

- Efallai fod eich plentyn wedi cael colled clyw dros dro. Mae hyn yn gyffredin iawn ymysg plant ifanc (e.e. colli clyw oherwydd annwyd neu haint yn y glust).
- Efallai fod y plentyn wedi bod yn rhy swil, neu efallai nad oedd yn ddigon hyderus i gwblhau'r prawf.
- Efallai fod gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol sy'n golygu nad yw'r prawf yn briodol. Bydd y plant yma'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau awdioleg yn uniongyrchol.
- Efallai fod gan y plentyn nam ar y clyw sy'n gofyn am asesiad llawn.

**Bydd y Sgriniwr Clyw yn dychwelyd ar ddyddiad diweddarach i ailadrodd y prawf sgrinio.**

**Os na fydd eich plentyn yn pasio'r ail brawf sgrinio, bydd yn cael ei atgyfeirio at y Gwasanaeth Awdioleg Plant er mwyn cynnal asesiad pellach mewn ysbyty neu glinig lleol.**

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45332. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg.